



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg

30 Ebrill, 2021

Cofnodion

Yn bresennol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cynghorydd Lis Burnett (LB)	Dirprwy Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cynghorydd Mike Cuddy (CMC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth
Emil Evans (EE)	Is-brifathro	Coleg Caerdydd a'r Fro
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Michelle Conquer (MC)	Prif Arolygydd	Heddlu De Cymru
Chris Hadfield (CH)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol	Llywodraeth Cymru
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM)
Hannah Williams (HW)	Pennaeth De Cymru Un	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Hefyd yn bresennol:		
Tom Bowring (TB)	Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Joanna Beynon (JB)	Swyddog Polisi	Cyngor Bro Morgannwg
Lloyd Fisher (LF)	Uwch Swyddog Data a Pholisi	Cyngor Bro Morgannwg
Lance Carver (LC)	Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyngor Bro Morgannwg
Rebecca Haves (RH)	Arweinydd Tîm	Cyngor Bro Morgannwg
Cheryl Williams (CW)	Prif Arbenigwr Hybu Iechyd	BIP Caerdydd a'r Fro
Heléna Herklots (HH)	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

David McKinney	Arweinydd Heneiddio'n Dda	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Gareth Rees (GR)	Swyddog Heneiddio'n Dda	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Ymddiheuriadau:		
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cynghorydd Neil Moore (NM)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y BIP	BIP Caerdydd a'r Fro

Eitemau'r Agenda	Camau Gweithredu
1. Croeso a chyflwyniadau Croesawodd MB bawb i gyfarfod y BGC.	
2. Ymddiheuriadau Gweler uchod.	
3. Cyflwyniad a Thrafodaeth: Bro sy'n Gyfeillgar i Oed Cyflwynodd HM yr eitem a rhoddodd JB drosolwg o'r boblogaeth sy'n heneiddio bresennol a'r amcanestyniadau ym Mro Morgannwg. Crynhodd HH y gobeithion dros weld Cymru'n cyflawni Statws Oed-gyfeillgar a thynnodd DK a GR sylw at fanteision cyflawni'r statws yn y Fro gan gynnwys cael mynediad at gysylltiadau, syniadau ac arbenigedd gan y rhwydwaith ac ar draws y byd a'r cyfle i rannu dysgu, ac amlinellont y camau nesaf yn y broses ymgeisio. Trafododd partneriaid bod yn gyfeillgar i oed a phwysigrwydd ffactorau gan gynnwys mynediad digidol a chysylltiadau rhwng cenedlaethau. Hysbysodd LC bartneriaid fod llawer o waith pontio'r cenedlaethau eisoes yn digwydd yn y Fro ac mae peth o'r gwaith wedi parhau er gwaethaf COVID gyda phlant yn anfon llythyrau at ffrindiau mewn cartrefi gofal. Nododd HH fod gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau fel arolygon cerdded, yn ffordd dda iawn o fynd i'r afael ag oedraniaeth a hyrwyddo manteision iechyd. Roedd FK o'r farn bod y gwaith hwn yn gyfle da i godi'r argymhellion yn Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd. Tynnodd RT sylw at y cyfle i blethu'r gwaith hwn gyda gwaith presennol, gyda'r adferiad a'r Aseiad Llesiant. Mae adroddiad wedi'i gyflwyno'n flaenorol i Uwch Dîm Arwain (UDA) y Cyngor ac mae ymrwymiad wedi'i wneud i ddatblygu'r gwaith hwn. Gan fod y gwaith yn cysylltu ar draws yr holl sefydliadau mae datblygu'r gwaith hwn drwy'r BGC yn gyfle gwych i gyflawni'r statws mewn cydweithrediad. Nododd MB nad yw'r Fro yn dechrau o'r dechrau ac mae sefydliadau eisoes yn gwneud llawer o waith da.	

Cytunodd partneriaid i ddatblygu'r gwaith i wneud cais am Statws Oed-gyfeillgar o dan y BGC.	
4. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 5 Chwefror 2021 Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod. Hysbysodd HM bartneriaid fod y cam i drefnu cyfarfod gyda Chynghorau Tref a Chymuned wedi'i ohirio, ond y gobaith yw trefnu cyfarfod ar gyfer mis Mehefin 2021. Gofynnodd MC a oedd unrhyw adborth o'r cyfarfod gyda'r Gweinidog a Chadeiryddion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ym mis Mawrth. Hysbysodd MB bartneriaid na chafwyd unrhyw adborth ffurfiol eto, ond roedd y materion a godwyd yn gyffredin ar draws pobl BGC gan gynnwys ariannu a gweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh). Cydnabu'r Gweinidog y bydd yn rhaid i BGCau addasu'r ffordd y maent yn gweithio wrth symud ymlaen i fod yn fwy hyblyg. Dywedodd RT y gellir darparu mwy o eglurder yn dilyn canlyniad yr etholiad ar y 6 Mai. Nododd MB fod yr Asesiad Llesiant hwn yn gyfle i ganolbwyntio mwy a nodi unrhyw heriau a materion newydd sydd wedi codi ers yr asesiad blaenorol o ganlyniad i COVID. Roedd FK yn cefnogi'r dull mwy penodol hwn gan dynnu sylw at y ffaith nad yw llawer o'r themâu neu faterion allweddol yn newid yn y PNA na'r Asesiad Llesiant (ALI). Gallai'r dull fod yn fwy o asesiad llorweddol gan roi'r cyfle i ganolbwyntio ar faterion allweddol mewn dyfnder. Trafodir yr Asesiad Llesiant ymhellach o dan eitem 7 ar yr agenda.	
5. Diweddariad COVID-19 Diweddarodd RT bartneriaid ar y sefyllfa bresennol yn y Fro. Mae'r sefyllfa bellach yn fwy sefydlog ac mae data'n dangos bod y gyfradd drosglwyddo yn isel iawn. Mae cyhoeddiad y Prif Weinidog heddiw yn cyflwyno ailagor canolfannau hamdden, neuaddau cymunedol ac ati i 3 Mai. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi'r Bwrdd Iechyd gyda brechiadau a chyfathrebu a gweithio ar orfodi ar y cyd gyda'r heddlu. Cytunodd FK ac awgrymwyd wrth i fwy o gyfyngiadau gael eu codi, ei bod yn bwysig ein bod yn parhau i gydbwyso hyn yn erbyn cyfraddau heintio. Y gyfradd bresennol yw 3.8 fesul 100,000 yn y Fro, y gyfradd bositifrwydd yw 0.9%. Mae'n bosibl y bydd cynnydd bach yn cael ei weld yn y dyfodol gan y bydd clystyrau bach yn cael effaith ar y data gan fod y niferoedd mor isel. Mae achosion o amrywiolyn Caint sy'n fwy trosglwyddadwy felly mae'n parhau i fod yn bwysig ein bod yn cynnal hylendid da ac yn cadw pellter cymdeithasol. Mae'r arena gofal iechyd nad yw'n COVID yn dechrau ailagor nawr bod y pwysau wedi lleddfu. Dysgwyd gwersi yn ymwneud â theithwyr yn cyrraedd yn yr ardal ar ôl i drosglwyddiad cymunedol gynyddu'n flaenorol pan gafodd cyfyngiadau teithio eu llacio. Er mai dim ond teithio hanfodol sydd ar waith ar hyn o bryd mae tua 400 o bobl yr wythnos yn cyrraedd y rhanbarth, ond mae'r mwyafrif yng Nghaerdydd. Ar hyn o bryd mae 375,248 o frechlynnau wedi'u rhoi yn y rhanbarth gyda thua 100,000 o'r rhain yn ail ddos. Ar hyn o bryd mae 69% o oedolion dros 18 oed wedi cael eu brechu â dos cyntaf yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae'r niferoedd sydd dros 50+ sydd wedi cymryd y brechlyn yn uchel iawn. Mae'r gyfradd 'Heb fynychu' yn her wirioneddol, ond mae rhestr o enwau wrth gefn ar waith.	

Canmolodd MB y Bwrdd Iechyd ar effeithlonrwydd y broses frechu. Diolchodd FK i Ruth Walker am ei gwaith ar hyn. RC yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith diweddar a wnaed gan GVS, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd a C3SC gyda Grant y Gronfa Adfer a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r effaith y mae COVID wedi'i chael ar wirfoddoli. Er gwaethaf yr amser troi tynn iawn ar gyfer y prosiect a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021 arweiniodd GVS at waith yn canolbwyntio ar wirfoddolwyr yn gweithio gyda grwpiau COVID anffurfiol a'u hyfforddiant, gan archwilio sut y gellid gwella hyn. Derbyniodd yr arolwg a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth gan wirfoddolwyr gyfradd ymateb dda gyda 147 o arolygon yn cael eu cwblhau. Canfu'r arolwg fod dros 82% o'r cyfranogwyr wedi canfod cyfle gwirfoddoli yn gyflym ac yn hawdd, roedd 48% yn gwirfoddoli am y tro cyntaf yn y swydd hon ac roedd gan dros 85% ddiddordeb mewn parhau i wirfoddoli yn y dyfodol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd eu cadw'n brysur ac yn egniol wrth i ni symud ymlaen. Roedd 42% o'r cyfranogwyr wedi ymddeol a 21% ar ffyrlo. Mae gwaith wedi parhau gyda grwpiau gwirfoddoli cymunedol anffurfiol lleol a ddatblygodd fel ymateb i COVID i weld a hoffent gael eu ffurfioli'n well ac aros yn weithredol wrth i ni symud ymhellach i adferiad. Ar hyn o bryd mae GVS yn gweithio gyda 2 grŵp i gael eu ffurfioli, bydd gwaith yn parhau yn y maes hwn wrth symud ymlaen. Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu i archwilio pa hyfforddiant oedd ar gael i wirfoddolwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a oedd ar gael yn gyffredinol ac yn debyg i ymsefydlu, o ganlyniad mae GVS wedi datblygu dulliau dysgu a fideos i bobl eu defnyddio yn y dyfodol. Caiff yr adnoddau hyn eu lansio'n ffurfiol ar 7 Mehefin. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu'n ôl â chymau gweithredu o fewn y Cynllun Llesiant ac yn rhoi cyfle i bartneriaid ystyried y canfyddiadau a sut y gall partneriaid gydweithio i annog gwirfoddoli. Diolchodd FK i RC am y cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu rhoi i gyflwyno'r brechlyn yn y Fro Orllewinol. Cytunodd HM fod y prosiect yn llwyddiant a byddai'n ddefnyddiol iawn wrth symud ymlaen. Bydd y fideo a gynhyrchir gan y prosiect yn cael ei ddosbarthu i'r BGC.	HM
6. Cyflwyniad: Cyllid ar ôl Brexit Cyflwynodd RH drosolwg o'r cyllid ar ôl Brexit sydd ar gael gan Lywodraeth San Steffan. Mae'r cynllun newydd hwn ledled y Deyrnas Gyfunol yn gweld awdurdodau lleol yn cystadlu ag eraill, gan gynnwys Cyngorau Sir mawr yn Lloegr. Amlinellodd RH 2 gronfa allweddol sydd ar gael; Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU a'r Gronfa Codi'r Gwastad a dwedodd wrth bartneriaid am y gwahanol brosesau ymgeisio. Mae'r Gronfa Adnewyddu yn refferu ac mae'r Gronfa Codi'r Gwastad yn Gyfalaf. Cronfa Codi'r Gwastad: Gall awdurdodau lleol gyflwyno un cais i bob AS yn eu hardal leol, o ganlyniad mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag Alan Cairns ac yn archwilio sut i gysylltu â De Caerdydd a Phenarth lle mae etholaeth yr AS yn pontio'r ddwy ardal awdurdod lleol. Mae Llywodraeth San Steffan yn chwilio am brosiectau ar raddfa fawr o dan y gronfa hon ac mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn themâu fel cyflogaeth a mannau cymdeithasol. Mae unrhyw awgrymiadau ar gyfer prosiectau mawr y mae angen cyllid arnynt i'w croesawu.	

Cronfa Adnewyddu: Y gronfa hon yw rhagflaenydd y Gronfa Ffyniant a Rennir. Rhaid cyflwyno ceisiadau ar gyfer y gronfa hon erbyn mis Mehefin a disgwylir y canlyniadau ym mis Gorffennaf ar gyfer cyllid Gorffennaf – Mawrth 2022. Gall yr awdurdodau lleol eu hunain gyflwyno ceisiadau neu ar ran gwahanol sefydliadau. Er mwyn sicrhau bod y broses yn parhau'n deg, mae panel annibynnol wedi'i sefydlu i asesu ceisiadau a chreu rhestr fer. Croesewir ceisiadau ar gyfer prosiectau sydd angen cyllid tymor byr. Mae cymorthfeydd ar-lein sy'n amlinellu'r broses ariannu a chymhwyso yn cael eu trefnu a byddant yn agored i'r cyhoedd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i'r panel yw 10 Mai. Awgrymodd FK y posibilrwydd o gysylltu ceisiadau â strategaethau llesiant yn y dyfodol a'r BPRh. Byddai Tom Porter yn y BIP yn awyddus i helpu ar unrhyw waith a phrosiectau teithio llesol. Nododd MB y cyfle i bartneriaid feddwl am syniadau ar gyfer y cylch ariannu nesaf drwy edrych ar ganfyddiadau'r Asesiad Llesiant a'r Cynllun newydd. Holodd MC a fyddai cydweithio ar hyn. Dwedodd RH wrth bartneriaid fod gwybodaeth wedi'i hanfon drwy GVS a bydd gan y panel annibynnol gynrychiolwyr o Gynghorau Tref a Chymuned arno i ddarparu dull mwy cyfannol. Bydd cyfleoedd pellach i gydweithio dros y flwyddyn nesaf i archwilio sut y gall prosiectau dyfu gyda'i gilydd i gael effeithiau ehangach a hirdymor ar lesiant. Tynnodd FK sylw at bwysigrwydd mabwysiadu ymagwedd strategol i alluogi ceisiadau i gystadlu gyda meysydd eraill. Sleidiau RH a manylion cyswllt i'w dosbarthu i bartneriaid.	HM
7. Datblygu'r Asesiad Llesiant Cyflwynodd TB yr eitem sy'n rhoi gwybod i bartneriaid bod grant y BGC gan Lywodraeth Cymru wedi'i gadarnhau'n anffurfiol, disgwylir cadarnhad ffurfiol. Amlinellodd HM ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. O leiaf disgwylir i'r BGC sicrhau bod yr asesiad yn cwmpasu pedwar dimensiwn llesiant (h.y. lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol), gan ystyried anghenion hirdymor yr ardal yn ogystal â'r tymor byr, edrych ar ardal y BGC yn ei chyfanrwydd ac ar gymunedau ac ardaloedd llai o fewn ardal y BGC, ac mae'r dull yn adlewyrchu'r 5 ffordd o weithio. Nododd HM wersi a ddysgwyd o'r asesiad blaenorol gan gynnwys adborth yn awgrymu bod diffyg tueddiadau tua'r dyfodol. Cyflwynodd LF y dull a awgrymwyd drwy Microsoft Sway a Power BI i greu dogfen fwy byw, gan adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth drwy Power BI, gan ganolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na maint a chynllunio'r asesiad gyda'r gynulleidfa mewn golwg. Rhaid cyhoeddi'r Asesiad ddechrau mis Mai 2022. Dwedodd TB wrth swyddogion fod partneriaid yn cyfarfod â swyddogion BGC Caerdydd a'r BPRh yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw i drafod cyfleoedd i alinio. Gofynnwyd i bartneriaid a oeddent yn hapus â'r dull a awgrymwyd, i Gyngor Bro Morgannwg arwain y gwaith cydlynu ac i nodi cysylltiadau allweddol o fewn sefydliadau y gellir cysylltu â hwy pan fo angen, yn hytrach na sefydlu is-grŵp. Cytunodd yr holl bartneriaid ar y ffordd ymlaen awgrymedig ar gyfer yr Asesiad Llesiant.	

Tynnodd AH sylw at bwysigrwydd osgoi dyblygu a gofynnodd a oedd unrhyw fylchau yn y Cyfrifiad gan nad oedd llawer o fyfyrwyr yn ôl i'w gwblhau. Hysbysodd LF bartneriaid fod gan y Fro gyfradd dychwel Cyfrifiad uchel iawn o 97%, ar hyn o bryd roedd ymateb y DU ar 90% sy'n uwch na'r Cyfrifiad blaenorol. Mynegodd RC bryderon ynghylch ymgysylltu'n effeithiol o fewn yr amserlen dynn gan fod mis Gorffennaf a mis Awst fel arfer yn fisoedd anodd i ymgysylltu. Mae GVS yn awyddus i helpu sut bynnag y gallant. Gofynnodd MB a oedd sefydliadau wedi ymgysylltu'n ddiweddar y gellid eu bwydo i mewn i'r asesiad a'i ddefnyddio ynddi i rannu hyn. Nododd FK fod y BGC wedi treulio amser hir eisoes yn creu'r asesiad blaenorol ac yn datblygu themâu cryf. Mae cyfle i adnewyddu'r data craidd a datblygu cyrchoedd thematig am wybodaeth mewn dyfnder y gellid ymwneud â hwy a fyddai'n helpu i nodi camau gweithredu. Ategodd HM y dull ymarferol hwn a nododd y gallai'r cyfyngiadau COVID effeithio ar ymgysylltu o hyd ac o ganlyniad bydd y darn hwn o waith yn barhaus. Cytunodd ME i fod yn gyswllt i CNC ar gyfer y BGC a thynnodd sylw at adroddiad SoNaRR a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer yr asesiad. Awgrymodd MC fod angen mwy o gefnogaeth gan y cymunedau lleol a chododd y cyfle i gael dulliau ymgysylltu newydd drwy reithgorau dinasyddion a'r cynnig gan Coproduction Cymru. Cadarnhaodd HM fod Coproduction Cymru wedi cynnig gweithio gyda 3 BGC dros gyfnod o 5 mlynedd. Mae llawer o ddiddordeb yn hyn ledled Cymru a bydd y cynnig yn cael ei drafod gyda Chaerdydd a'r BPRh yn ddiweddarach heddiw. Cydnabyddir yr angen i barhau i weithio i adeiladu rhwydweithiau lleol, adnoddau cymunedol a gwaith gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac ymagwedd partneriaeth a fydd yn llywio'r Asesiad Llesiant i raddau helaeth iawn.	Pawb
8. Datblygu Adroddiad Blynyddol y BGC Darparodd HM drosolwg o'r ffordd ymlaen a awgrymwyd ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2020-21 gan adeiladu ar y dull a gymerwyd y llynedd gan ddefnyddio Microsoft Sway. Bydd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau'r BGC, yr ymgysylltu a wnaed, cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn y Cynllun Llesiant ac yn cynnwys astudiaethau achos o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn. Rhaid llunio'r adroddiad erbyn mis Gorffennaf 2021. Bydd yr amlinelliad a awgrymir o'r adroddiad yn cael ei ddosbarthu i bartneriaid er mwyn cael sylwadau arno. Os oes gan bartneriaid astudiaeth achos benodol yr hoffent ei chynnwys yn yr adroddiad, cysylltwch â HM.	HM
9. Y Flaenraglen Waith Amlinellodd HM drosolwg o'r flaenraglen waith sy'n tynnu sylw at Adroddiad Blynyddol y BGC a ddaw ger bron y cyfarfod mis Gorffennaf i'w gymeradwyo. Croesawodd HM unrhyw awgrymiadau gan y partneriaid ar gyfer eitemau agenda yn y dyfodol a gofynnodd i'r partneriaid gysylltu â HM neu TB.	
10. Unrhyw fater arall Ni thrafodwyd unrhyw fusnes ychwanegol.	

11. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2 Gorffennaf 2021, 10:30am – 12:30pm drwy Microsoft Teams	
---	--